

Helpu adferiad y DU

Ein cynllun corfforaethol ar gyfer Ebrill 2021 - Mawrth 2022



Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau

Ein pwrpas

Gweledigaeth

Pawb yn gwneud y mwyaf o'u harian a phensiynau

Cenhadaeth

Rydym yn helpu pobl – yn arbennig y rhai mwyaf anghenus - i wella eu lles ariannol ac adeiladu dyfodol gwell, mwy hyderus. Gan weithio ar y cyd ledled y DU, rydym yn sicrhau y gall cwsmeriaid gyrchu canllawiau arian a phensiynau a chyingor ar ddyledion o ansawdd uchel trwy gydol eu hoes, fodd bynnag a phryd bynnag y mae ei angen arnynt.

Egwyddorion a gwerthoedd

1. Canolbwyntio ar gwsmeriaid a chanlyniadau

2. Wedi'i arwain gan dystiolaeth a'i dargedu

3. Hyblyg ac arloesol

4. Effeithlon ac effeithiol

5. Arwain trwy esiampl
Gofalu - Cysylltu - Trawsnewid

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	3
Ynglŷn â MaPS	4
Ein blaenoriaethau	5
1. Helpu pobl mewn argyfwng ariannol	6
2. Helpu pobl mewn angen i reoli eu harian heddiw	8
3. Helpu pobl gyda'u pensiynau a'u dyfodol ariannol	10
4. Gweithio gyda phartneriaid i wella lles ariannol	12
5. Adeiladu ar sylfeini cryf	14
Mesur llwyddiant	16
Ein cyllideb ar gyfer 2021/22	18

Rhagair

Mae gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau weledigaeth syml: pawb yn gwneud y gorau o'u harian a pensiynau. Mae hynny oherwydd pan fydd pobl yn teimlo mwy o reolaeth ar eu cyllid, mae unigolion a chymunedau yn iachach, mae busnesau'n fwy llewyrchus ac mae'r economi'n elwa.

Mae'r pandemig coronavirus (COVID-19) yn parhau i gael effaith hanesyddol ar economi'r DU a chyllid personol pobl. I lawer a oedd eisoes yn ei chael yn anodd, mae COVID-19 wedi gwneud pethau'n waeth. Yn ôl Arolwg Bywydau Ariannol diweddaraf yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), mae gan 3.5 miliwn o oedolion ychwanegol wytnwch ariannol isel bellach.¹ Mae llawer o aelwydydd, a oedd eisoes mewn sefyllfa ariannol ansicr cyn yr argyfwng presennol, bellach yn brwydro i ddal I fynd.

Mae gan MaPS gylch gwaith statudol i ganolbwyntio ar helpu'r rhai mwyaf anghenus ac mewn amgylchiadau bregus. Rydym yn gwneud hyn trwy gefnogi pobl o ddydd i ddydd i adeiladu gwytnwch ariannol trwy gydol eu bywydau, yn ogystal ag yn ystod dau o'r amgylchiadau ariannol pwysicaf y gallent eu profi erioed: bod mewn argyfwng ariannol a chynllunio ar gyfer eu dyfodol. Rydym yn canolbwyntio'n llawn ar helpu pobl i atgyweirio eu cyllid a pharatoi eu dyfodol.

Er mwyn adeiladu'n ôl yn well o'r pandemig hwn, rydym yn gwybod bod rhaid i ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bawb yn y DU. Rydym yn bodoli mewn ecosystem o gymorth arian a all fod yn ddryslyd i bobl ei llywio. Mae'n anodd gwybod pwy i ymddiried ynddo. Rydym yn parhau i fod wrth ochr ein cwsmeriaid, gan gyfeirio pobl at yr ateb gorau ar eu cyfer. Efallai y bydd hyn yn cael ei gyflawni gennym ni, neu gall eraill ei gyflawni. Yr hyn sy'n bwysig yw ei fod yn cyflwyno canlyniadau.

Mae'r cynllun corfforaethol hwn yn amlinellu sut y bydd MaPS yn gweithio fel rhan o ymdrech unedig y Llywodraeth i gefnogi cyllid pobl a gwella eu bywydau. Trwy ein harweiniad arbenigol, cyngor o ansawdd uchel ar ddyled, offer a gwasanaethau digidol - a thrwy gydweithio ag eraill - byddwn yn helpu pobl i adeiladu lles ariannol nawr fel y gall pawb yn y dyfodol wneud y gorau o'u harian a'u pensiynau

Sir Hector Sants,
Cadeirydd



Cyflwyniad

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae MaPS wedi adeiladu sylfeini cryf i'r sefydliad ddiwallu anghenion newidiol ein cwsmeriaid: gan uno ein gwasanaethau cwsmeriaid i sicrhau effeithlonrwydd swyddfa gefn, gan weithio gyda phartneriaid ym mhob un o'r pedair gwlad i lunio Strategaeth uchelgeisiol y DU ar gyfer Lles Ariannol i'r degawd nesaf a chan gymryd y rôl hanfodol o oruchwylio'r Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu pwysigrwydd ein rôl wrth gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed a'r rhai mwyaf anghenus gyda'u lles ariannol. Fe wnaethom sicrhau £37.8 miliwn yn ychwanegol mewn cyllid cyngor ar ddyled gan y Llywodraeth yn 2020. Ar gyfer 2021/22, cynhaliwyd y lefelau uchaf erioed o gyllid: gan alluogi miliwn o bobl ychwanegol yn Lloegr i gael cyngor ar ddyled, tra bod canllawiau gwell ar arian ar gael i dwy filiwn eraill.

Yn uniongyrchol a gyda'n partneriaid cyflenwi a ariennir, fe wnaethom ddarparu miliwn o sesiynau cyngor neu arweiniad i gwsmeriaid yn 2020/21, gyda miliynau yn fwy yn defnyddio ein gwasanaethau digidol. Mae ein pobl yn cael eu hysgogi gan gyflawni canlyniadau wedi'u targedu, effeithiol ac effeithlon ar gyfer poblogaeth y DU. Rwyf am ddiolch yn bersonol iddynt i gyd am barhau i weithio mor ddiwyd i helpu pobl yn yr amgylchiadau cynyddol heriol a gyflwynir gan COVID-19.

Eleni, rydym yn disodli ein brandiau Gwasanaeth Cynghori Arian a Gwasanaeth Cynghori Pensiynau I gwsmeriaid ag un brand newydd - HelpwrArian. Hwn fydd y porth sengl ar gyfer arweiniad ar arian a phensiynau dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb, wrth ddefnyddio ein cysylltiadau ar draws y sector i gysylltu pobl â gwasanaethau cymorth eraill am ddim, os mai dyna sy'n iawn iddyn nhw.

Mae HelpwrArian yn adeiladu ar sylfeini cryf o'n gwasanaethau etifeddol i helpu pobl â'u dewisiadau ariannol ar draws eu hoes, mewn ffordd gyfannol, o arian poced i bensiynau. Er y bydd y brand yn newydd, mae ein pwrpas yn aros yr un fath: helpu pobl i gyrchu canllawiau a chyngor o ansawdd uchel i wneud y penderfyniadau ariannol cywir heddiw er mwyn adeiladu ar gyfer gwell yfory.

Caroline Siarkiewicz,
Prif Swyddog Gweithredol



Ynglŷn ag MaPS

Sefydlwyd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) gan Ddeddf Canllawiau Ariannol a Hawliadau (2018).

Rydym yn gorff hyd braich, a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), a ariennir gan ardollau ar y diwydiant gwasanaethau ariannol a chynlluniau pensiwn.

Mae gwaith MaPS ar draws pum swyddogaeth graidd:

- **Canllawiau pensiwn** - darparu cymorth a chanllawiau i ddefnyddwyr ar faterion pensiwn y gweithle a phensiynau personol y DU, wrth gefnogi'r rheini sy'n 50 oed neu'n hŷn i wneud penderfyniadau ar eu cronfeydd pensiwn cyfraniadau diffiniedig.
- **Cyngor ar ddyled** - fel y cyllidwr mwyaf o wybodaeth a chyngor am ddim ar ddyled yn Lloegr, wrth wella ansawdd cyngor ar ddyled a darparu hyfforddiant a chymorth i gynghorwyr ar lawr gwlad ledled y DU.
- **Canllawiau arian** - gwella gwybodaeth a dealltwriaeth miliynau o bobl o faterion ariannol - gan dargedu'r rhai a allai fod yn agored i niwed neu'r rhai mwyaf anghenus - yn ogystal â helpu eu sgiliau rheoli arian o ddydd i ddydd trwy ganllawiau arian diduedd am ddim.
- **Diogelu defnyddwyr** - gweithio gyda'r llywodraeth a rheoleiddwyr i amddiffyn defnyddwyr rhag sgamiau ariannol a chefnogi ymdrechion y diwydiant gwasanaethau ariannol ehangach i amddiffyn defnyddwyr.
- **Strategaeth** – Fe wnaethom lansio Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol ym mis Ionawr 2020 fel fframwaith ar gyfer sut y byddwn yn gweithio gyda sefydliadau mewn llawer o wahanol sectorau ledled ein cenedloedd i wneud gwahaniaeth mesuradwy i reoli arian yn y DU.


Mae gennym hefyd fandad penodol gan y llywodraeth: hwyluso'r diwydiant pensiynau i ddatblygu dangosfyrddau pensiynau. Bydd y rhaglen waith hon yn caniatáu i unigolion gyrchu eu gwybodaeth pensiynau ar-lein, yn ddiogel ac i gyd mewn un lle: gan gefnogi gwell cynllunio ar gyfer ymddeol.



Ein blaenoriaethau

Cyflenwi ar gyfer cwsmeriaid a gwella lles ariannol pobl ledled y DU

Cydlynu Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol



1 1 Helpu pobl sydd mewn argyfwng ariannol

Hyd yn oed cyn y pandemig COVID-19, roedd yr angen am gyngor ar ddyled yn fwy na'r capasiti yn y sector. 2 Nid ydym eto wedi gweld maint llawn yr effaith y mae wedi'i gael ar gyllid pobl - ond rydym yn rhagweld y bydd wedi gwaethygu eu sefyllfa ariannol i filiynau o bobl ledled y DU. Wrth i'r broses o gyflwyno'r rhaglen frechlyn yn llwyddiannus ein harwain allan o'r argyfwng iechyd, mae gwasanaethau cynghori ar ddyled - a chymorth hanfodol arall ar argyfwng - yn hanfodol wrth barhau i helpu unigolion ac, yn ehangach, helpu i gefnogi adferiad economaidd a chymdeithasol y DU.

Ein huchelgais yw helpu i sicrhau bod pawb sydd angen cyngor ar ddyled ledled y DU yn gallu cyrchu gwasanaethau o ansawdd uchel yn hawdd - pryd, ble a sut maent ei angen. Rydym yn ariannu cyngor, hyfforddiant a seilwaith dyled yn Lloegr. Dyrennir cyllid cymesur i lywodraethau datganoledig ar gyfer darparu cyngor ar ddyled yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Ar gyfer materion strategol ledled y DU, rydym yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.

Yn 2021/22, fe wnawn ni:

- **comisiynu cyngor o ansawdd uchel ar ddyled yn Lloegr** - gan gynnwys digidol, ffôn ac wyneb yn wyneb, ac wedi'i adeiladu o gwmpas anghenion cwsmeriaid;
- **cefnogi'r broses o gyflwyno Gofod Anadlu yn Lloegr** - polisi pwysig sy'n rhoi hawl i bobl mewn dyled broblemus I gael amddiffyniadau cyfreithiol gan eu credydwyr; a
- **ysgogi trawsnewid yn y sector cyngor ar ddyledion ledled y DU** - gan weithio gyda phartneriaid i wella sut mae cwsmeriaid yn cael eu cynnwys a'u cefnogi i helpu i greu sector mwy effeithlon, effeithiol a gwydn.

yn y DU â gormod o ddyledion³

Cyngor ar ddyled

2 Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Ariannu Cyngor Dyled yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, Ionawr 2018: https://masassets.blob.core.windows.net/cms/files/000/000/900/original/Peter_Wyman_Review_of_Debt_Advice_Funding_2018.pdf

3 Arolwg FCA Bywydau Ariannol 2020: effaith coronafeirws, 11.02.2021: <https://www.fca.org.uk/publication/research/financial-lives-survey-2020.pdf>

Comisiynu cyngor o ansawdd uchel ar ddyled yn Lloegr

Byddwn yn cychwyn ymarfer comisiynu, gyda gwasanaethau newydd ym maes cynghori ar ddyledion yn mynd yn fyw o Ebrill 2022. Mae MaPS wedi cael mwy o arian ar gyfer 2021/22 i ymateb i'r pandemig. Yn y pen draw, bydd faint o gyngor rydym yn ei gomisiynu yn dibynnu ar y galw, ond ar hyn o bryd rydym yn disgwyl cynyddu capasiti cyngor ar ddyledion ar gyfer hyd at 500,000 o bobl eraill yn Lloegr - gan helpu cyfanswm o hyd at filiwn o bobl.

Byddwn yn gwneud hyn trwy gynyddu'r defnydd o wasanaethau digidol, y mae cwsmeriaid wedi'u defnyddio fwyfwy trwy'r pandemig. Gan fod y gwasanaethau hyn fel rheol yn gost is, byddant yn ein galluogi i wasanaethu mwy o bobl gyda'r arian sydd ar gael gennym, gan wella gwerth am arian.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai rhai pobl ei chael yn anodd cyrchu a defnyddio gwasanaethau digidol yn effeithiol - gan gynnwys rhai pobl ag anghenion arbennig o gymhleth - ac felly byddwn yn sicrhau bod ystod lawn o gynigion sianeli yn aros yn eu lle.

Gorchymynion Rhyddhau o Ddyled (DROs)

Yn allweddol, byddwn yn parhau i ariannu costau gweinyddu Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled (DRO) yn Lloegr. Mae hwn yn weithgaredd y mae darparwyr cyngor yn hanesyddol wedi gorfod ei 'draws-sybsideiddio' o ffynonellau cyllid eraill, felly mae ein hymyrraeth yn galluogi partneriaid cyflenwi i ganolbwyntio mwy o'u hadnoddau presennol ar ddarparu cyngor ar ddyledion.

Cefnogi'r broses o gyflwyno Gofod Anadlu yn Lloegr

Lansiwyd y cynllun Gofod Anadlu newydd yng Nghymru a Lloegr ym mis Mai 2021. Mae hyn yn cynnig yr hawl i bobl mewn dyled broblemus i gael amddiffyniadau cyfreithiol gan eu credydwyr, gan ganiatáu cyfnod o amser iddynt gael cyngor proffesiynol. Mae dau fath o seibiant - gofod anadlu safonol am hyd at 60 diwrnod, a gofod anadlu argyfwng iechyd meddwl, sydd ag amddiffyniadau cryfach, sy'n parhau cyhyd â thriniaeth argyfwng iechyd meddwl yr unigolyn, ynghyd â 30 diwrnod.

Yn Lloegr, rydym yn gweithio'n agos gyda Thrysorlys EM a'r Gwasanaeth Ansolfedd i gefnogi gweithredu'r ddau fath o seibiant yn llwyddiannus.

Byddwn yn:

- cefnogi'r gofod anadlu safonol yn y trefniadau cyflenwi cyfredol ar gyfer cyngor ar ddyled;
- ariannu a chefnogi gweithreud cynllun peilot o'r mecanwaith mynediad iechyd meddwl gofod anadlu - gan ddarparu gwasanaeth mawr ei angen ar gyfer cwsmeriaid bregus iawn; ac
- ariannu hyfforddiant Gofod Anadlu am ddim i gynghorwyr dyled a gwasanaeth cymorth arbenigol i helpu cynghorwyr dyled gyda materion arbennig o heriol sy'n gysylltiedig â Gofod Anadlu.

Trwy gyflawni Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol, rydym hefyd yn archwilio ffyrdd o weithio gyda'r GIG yn Lloegr i'w gwneud yn haws atgyfeirio pobl â phroblemau iechyd meddwl i geisio cymorth a chefnogaeth ariannol addas, gan gynnwys yn y Rhaglen IAPT (Gwella Mynediad at Therapiau Seicolegol) a gwasanaethau Rhagnodi Cymdeithasol. Byddwn yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i nodi cyfleoedd tebyg ym mhob gwlad.

Ysgogi trawsnewid yn y sector cyngor ar ddyledion ledled y DU

Er mwyn darparu gwasanaethau sy'n newid bywyd o ansawdd uchel yn gyson, ac ar yr un pryd sy'n pontio'r bwlch rhwng lefelau angen a gallu'r sector yn gynaliadwy - ledled y DU gyfan - mae angen model cyflenwi mwy effeithlon ac effeithiol arnom.

Gan weithio'n agos gyda llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig, credydwyr a sectorau cyngor ar ddyledion ym mhob gwlad, byddwn yn parhau â'n gwaith presennol i ddatblygu a gwella seilwaith y sector, gan gynnwys:

- defnydd ehangach o'r Datganiad Ariannol Safonol ledled y DU;
- adeiladu ar ddysgu o'r Cynllun Peilot o Gapasiti ac Effeithlonrwydd Cynghorwyr (PACE) yn Lloegr;
- parhau i gryfhau perthnasoedd â sectorau awdurdod lleol, llywodraeth, cyfleustodau a chredydwyr eraill i hyrwyddo atgyfeiriadau effeithiol i gyngor ar ddyled; a
- diffinio gwasanaethau digidol newydd ar draws y meysydd cyngor ar ddyled a chanllawiau arian, i'w darparu gan MaPS a phartneriaid mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda StepChange ac eraill ar ymgysylltu â Chynllun Talu COVID (CVPP) - opsiwn cymorth tymor byr, fel dewis arall yn lle cyngor llawn ar ddyled.

2 Helpu pobl mewn angen i reoli eu harian heddiw

Mae'r pandemig wedi dangos pwysigrwydd gwytnwch ariannol. Mae'r effaith yn dal i ddatblygu; fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai grwpiau mewn sefyllfa ariannol gynyddol fregus. Rydym yn credu bod gan ganllawiau arian da ran allweddol i'w chwarae wrth helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen i deimlo'n ddiogel ac i reoli eu cyllid, gwella eu gwytnwch a chryfhau eu sefyllfa ariannol.

Rydym yn sicrhau bod pobl yn gallu cyrchu'r help sydd ei angen arnynt i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu harian ac adeiladu eu gwytnwch rhag sioc ariannol - gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sydd ei angen fwyaf.

Mae tirwedd y darparwyr yn helaeth a chymhleth - o arbenigwyr arian pwrpasol a gwefannau sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i wneud y mwyaf o'u harian, i'r rheini sydd â maes ffocws ehangach, lle mai dim ond un rhan o'r sgwrs yw materion arian. Ein huchelgais yw helpu i'w gwneud mor hawdd â phosibl i bobl gyrchu a llywio gwybodaeth ac arweiniad arian o ansawdd uchel - p'un a ydynt yn dod atom ni neu'n mynd i rywle arall.

Yn 2021/22, byddwn yn:

- **darparu canllawiau arian o ansawdd uchel a dargedir yn gynyddol trwy ein gwasanaethau a chyda phartneriaid** - gan fireinio ein gwasanaeth fel ei fod wedi'i dargedu'n fwy at y rhai sydd ei angen fwyaf a'i fod yn canolbwyntio ar lenwi bylchau; a
- **helpu ymarferwyr arian mewn sefydliadau eraill ledled y DU i wella eu heffaith** - gan godi ansawdd canllawiau arian a ddarperir gan filoedd o sefydliadau ac ymarferwyr.

Mae gan 11.5 miliwn o bobl lai na £100 mewn cynilion a buddsoddiadau⁴

⁴ Gwasanaeth Cyngori Ariannol, Arolwg Gallu Ariannol, 2018: <https://beta.ukdataservice.ac.uk/datacatalogue/studies/study?id=8454> gyfuno ag SYG, amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU (canol - 2018).

Darparu canllawiau arian o ansawdd uchel wedi'i dargedu'n gynyddol trwy ein gwasanaethau a chyda phartneriaid

Rydym yn canolbwyntio ein gwasanaethau fwyfwy ar y rhai mwyaf anghenus ac sydd mewn amgylchiadau bregus, gan ddarparu canllawiau lle mae'n brin. Yn 2021/22, byddwn yn adeiladu cynllun aml-flwyddyn i weithredu'r gwelliannau hyn. Bydd hyn yn cynnwys darparu cynnwys ar ganllawiau arian wedi'i dargedu'n fwy, sefydlu ein dull o ran pryd a sut yr ydym yn cyfeirio at eraill, ac adeiladu canllawiau arian i'n gwasanaethau pensiynau a dyled lle bo hynny'n briodol fel ein bod yn cynnig gwasanaeth mwy cyfannol i'n cwsmeriaid.

Byddwn yn lansio'r brand **HelpwrArian** newydd ar draws ein gwefan sengl newydd a'n canolfan gyswllt. Mae HelpwrArian yn disodli ein gwefannau canllawiau ariannol blaenorol ac yn darparu un lle i gwsmeriaid fynd iddo. Eleni byddwn yn cyflwyno o leiaf 235,000 o sesiynau canllawiau arian o ansawdd uchel trwy we-sgwrs, WhatsApp, e-byst, llythyrau a thros y ffôn, gan ddarparu dewis o sianeli i'n cwsmeriaid.

Mae ein perthnasoedd sefydledig â sefydliadau ar lefelau'r DU, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ein galluogi i gyrraedd y rheini mewn cymunedau sydd angen help fwyaf. Byddwn yn cryfhau partneriaethau gyda'r sector cyhoeddus i nodi cyfleoedd cydweithredol i ymgorffori canllawiau arian mewn gwasanaethau cyhoeddus, megis helpu pobl ar Gredyd Cynhwysol.

gyda phob un o'r pedair system iechyd yn y DU, gan gynnwys pob adran iechyd, pob gwasanaeth iechyd gwladol a phartneriaid iechyd ehangach. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau ariannol.

Mae'r gweithle yn sianel gyflawni allweddol. Byddwn yn cefnogi cyflogwyr - mawr a bach - i ddeall yr hyn y gallant ei wneud i adeiladu lles eu cyflogeion, beth sydd fwyaf effeithiol a sut i'w hyrwyddo. Fel rhan o'n rôl gydlynar gyfer Strategaeth y DU byddwn yn helpu i adeiladu cymuned o gyflogwyr sy'n poeni am ac yn rhannu eu gwaith ar les ariannol.

Helpu ymarferwyr arian ledled y DU i wella eu heffaith

Mae arian yn cyffwrdd â phob agwedd ar ein bywydau, ac yn aml rhoddir canllawiau arian fel rhan o wasanaethau ehangach a ddarperir gan filoedd o sefydliadau ac ymarferwyr amrywiol. Gallai'r rhain gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion tai a llawer o rai eraill. Gall rhoi canllawiau arian fod yn rhan heb ei werthfawrogi'n ddigonol o rôl rhywun ac nid yw'r set sgiliau sydd ei hangen wedi'i diffinio. Mae cymorth a hyfforddiant yn anghyson ac nid yw'n hygyrch i bawb.

Rydym wedi creu **Tywyswyr Arian**, rhaglen sydd y cyntaf o'i math, sy'n helpu i godi ansawdd canllawiau arian ledled y DU. Nod y rhaglen yw helpu ymarferwyr a sefydliadau i ddarparu canllawiau arian yn dda trwy ddatblygu sgiliau, dealltwriaeth, hyder a gallu.

Eleni, byddwn yn gweithio gyda charfan o sefydliadau ac ymarferwyr ledled y DU i dreialu gweithredu offer, e-ddysgu a dyfarnu'r Fframwaith Cymhwysedd Canllawiau Arian. Byddwn yn lansio rhwydweithiau Tywyswyr Arian ym mhob gwlad i gynorthwyo ymarferwyr gyda chyfleoedd dysgu, cysylltu a rhannu parhaus i'w helpu i ddarparu canllawiau arian yn dda.

Diogelu defnyddwyr

- Mae gennym ddyletswydd statudol i hysbysu a gweithio gyda'r FCA lle rydym yn dod yn ymwybodol o arferion sy'n niweidiol i ddefnyddwyr, ac i ystyried effaith marchnata uniongyrchol digymell ar ddefnyddwyr.

- Bydd ein swyddogaeth diogelu defnyddwyr yn defnyddio'r data a mewnwelediad cyfoethog a gesglir o'n cyrraeddiad cwsmeriaid ac arbenigedd technegol mewnol i rybuddio'r llywodraeth a rheoleiddwyr am faterion penodol. Byddwn yn helpu i nodi tueddiadau i lywio Gwaith yr FCA ac eraill lle gallwn helpu i leddfu'r effaith ar ddefnyddwyr.

- Byddwn hefyd yn manteisio ar y synergeddau â'n swyddogaethau statudol eraill, gan gynnwys llenwi bylchau yn y ddarpariaeth canllawiau arian a phensiynau lle mae ein mewnwelediadau amlygu defnyddwyr sydd mewn perygl o niwed ariannol.

3 Helpu pobl gyda'u pensiynau a'u dyfodol ariannol

Gallai bron pawb elwa o help i gynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol a chyflawni canlyniadau ymdeol da. Mae pobl yn wynebu tirwedd pensiynau cymhleth iawn, lle gall penderfyniadau fod yn anghildroadwy ac mae effaith gwneud y dewis anghywir yn sylweddol. Rydym yn sefyll wrth ochr pobl wrth iddynt lywio'r dirwedd hon, gan eu cefnogi i wneud y dewisiadau a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt. Wrth i ni edrych ymlaen, nid ydym yn gwybod beth fydd effaith hirdymor COVID-19; fodd bynnag, rydym yn rhagweld mwy a mwy o alwadau ar ein gwasanaethau yn y blynyddoedd i ddod.

Ni yw'r unig ddarparwr diduedd canllawiau am ddim yn y DU sy'n cefnogi pobl ar draws eu pensiynau ac ar bob cam o'u taith pensiynau. Ein nod yw helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus fel eu bod yn rheoli eu harian yn y cyfnod cyn, ac yn ystod, ymdeol. Rydym yn trawsnewid tirwedd y pensiynau trwy ddarparu seilwaith dangosfwrdd pensiynau newydd ar gyfer diwydiant. Mae ein cynghorwyr arbenigol dibynadwy yn helpu pobl i lywio trwy rai o benderfyniadau ariannol mwyaf a mwyaf effeithiol eu bywydau.

Yn 2021/22, byddwn yn:

- **ysgogi cynnydd wrth alluogi dangosfyrddau pensiynau:** cyflenwi'r bensaerniaeth dechnegol ar gyfer diwydiant a dechrau adeiladu ein dangosfwrdd ein hunain; a
- **chyflenwi canllawiau pensiynau o ansawdd uchel wedi'u targedu:** 420,000 o sesiynau canllawiau pensiwn arbenigol, gweithredu newidiadau deddfwriaethol ac adeiladu ein Rhaglen Trawsnewid Pensiynau.

Mae 22.5 miliwn o oedolion o oedran gweithio'n dweud nad ydynt yn gwybod digon i gynllunio ar gyfer ymdeol⁵

⁵ Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Arolwg Gallu Ariannol, 2018: <https://beta.ukdataservice.ac.uk/datacatalogue/studies> Wedi'i gyfuno ag SYG, amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU (canol - 2018).

Ysgogi cynnydd wrth alluogi dangosfyrddau pensiynau

Rydym yn arwain y **Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau** ar ran y llywodraeth. Trwy'r gwaith hwn am y tro cyntaf, bydd cwsmeriaid yn cael golwg sengl, mewn un lle diogel ar-lein, ar eu pensiynau preifat - gan gynnwys pensiynau coll - a'u pensiwn gwladol. Mae gan MaPS ddau ymrwymiad mewn perthynas â dangosfyrddau pensiynau: rhoi'r bensaernïaeth ddigidol ar waith i wneud dangosfyrddau yn bosibl a lansio ein dangosfwrdd ein hunain.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, rheoleiddwyr a diwydiant i adeiladu'r bensaernïaeth ddigidol a gwasanaethau hunaniaeth a fydd yn galluogi partneriaid i ddarparu eu cynnig dangosfwrdd eu hunain, gan roi mwy o ddewis i gwsmeriaid. Byddwn yn nodi ein map ffordd ar gyfer cyflenwi ac yn cytuno gyda'n partneriaid diwydiant ar y safonau dylunio a data yr ydym yn ceisio eu cyflawni. Rhaid i ddiogelwch defnyddwyr gael ei ymgorffori mewn dangosfyrddau pensiynau a byddwn yn gweithio gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r FCA i sicrhau bod gennym y mesurau diogelwch cywir i ddefnyddwyr ar waith o fewn y fframwaith rheoleiddio ar gyfer dangosfyrddau.

Byddwn yn adeiladu prototeip cyntaf dangosfwrdd pensiynau MaPS ac yn profi ei integreiddio i bensaernïaeth ddigidol y rhaglen dangosfwrdd pensiynau. Bydd yn hanfodol cynyddu effeithiolrwydd dangosfyrddau pensiynau MaPS i'r eithaf, byddwn yn dechrau cwmpasu a dylunio Hyb Cynllunio Ymdeol newydd sydd â'n dangosfwrdd yn ganolog iddo. Bydd y canolbwynt hwn yn helpu cwsmeriaid i fod yn glir ynghylch pa gamau i'w cymryd nawr eu bod yn gwybod beth allai eu hincwm ymdeol fod.

Cyflenwi canllawiau pensiynau o ansawdd uchel wedi'u targedu

Dylai cynllunio ar gyfer y dyfodol fod yn rhan allweddol o fywydau ariannol pawb. Bydd ein harbenigwyr hyfforddedig yn cyflwyno 420,000 o sesiynau o ansawdd uchel ar ganllawiau pensiynau trwy gydol y flwyddyn, gan helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn dechrau gweithio ar ein **Rhaglen Trawsnewid Canllawiau Pensiynau**. Ein nod tymor hir yw darparu canllawiau hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol ar pensiynau, gyda mwy o ddewis o sianeli a thait cwsmer fwy cyfannol, di-dor. Bydd 2021/22 yn flwyddyn sylfaenol a byddwn yn sefydlu ein cynllun llawn ar gyfer yr hyn yr ydym yn ei ddatblygu a'i weithredu. Fel rhan o hyn, byddwn yn datblygu ein strategaeth ar gyfer canllawiau canol oes gan weithio gyda'r llywodraeth a diwydiant.

Byddwn yn dylunio ac yn treialu elfennau o'r rhaglen, gan gynnwys ymatebion allweddol i newidiadau deddfwriaethol sydd ar ddod. Mae hyn yn cynnwys gweithredu apwyntiad newydd ym maes canllawiau ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o sgamiau, a phrosesau i gefnogi atgyfeirio pobl at Pension Wise gan ddarparwyr.

Byddwn yn dechrau creu pensiynau cyfannol 'drws ffrynt' (digidol a ffôn) fel y gallwn asesu anghenion defnyddwyr a'u brysbennu i'r canllawiau cywir, drwy'r sianel gywir, y tro cyntaf. Byddwn yn cychwyn gwaith **ar apwyntiad digidol Pension Wise** i ateb y galw cynyddol a gweithio i gynyddu'r nifer sy'n manteisio trwy ddoesbarthu a gwell cysylltiadau â chanllawiau eraill. Bydd y strategaeth sianel ar gyfer Pension Wise yn cael ei mireinio fwyfwy fel y gallwn annog mwy o bobl i ddefnyddio sianeli cost is lle mae hynny'n gweithio iddynt. Yn ganolog i'r gwaith hwn mae diffinio'r mesurau llwyddiant ar draws pob menter. Bydd hyn yn ein

galluogi i fonitro a chasglu data yn y ffordd orau a fydd yn caniatáu i'r Rhaglen ddatblygu'n barhaus.

Fel rhan o'n briff ar gyfer amddiffyn defnyddwyr, byddwn yn parhau i fonitro effaith COVID-19 ar gynlluniau ymdeol pobl, ar sut mae busnesau a chynlluniau pensiwn yn ymateb i'r heriau economaidd sy'n eu hwynebu, ac ar ei oblygiad ar pensiynau. Byddwn yn estyn allan ac yn cynnig cymorth, yn arbennig lle gwelwn fwy o risgiau i gynilwyr pensiwn, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn rhag sgamiau a thrafodion risg uchel.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith arbenigol a'r cymorth a ddarparwn i bobl wrth iddynt wynebu digwyddiadau mawr megis ailstrwythuro cynllun neu ddiswyddo - yr achosion hynny lle gallai pobl gael eu gorfodi i wneud penderfyniadau ariannol annisgwyl a chymhleth ynghylch eu pensiynau - a pharhau i ychwanegu at ac esblygu'r gwaith a wnawn ym maes atal sgamiau a chefnogi dioddefwyr sgamiau pensiwn a buddsoddiad.

4 Gweithio gyda phartneriaid i wella lles ariannol

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaethom gyhoeddi Strategaeth 10 mlynedd y DU ar gyfer Lles Ariannol - strategaeth ar y cyd a chydweithredol ar gyfer miloedd lawer o sefydliadau ledled y DU. Roedd hyn yn nodi pum nod cenedlaethol uchelgeisiol i drawsnewid lles ariannol y DU. Ychydig yn fwy na blwyddyn yn ddiweddarach ac mae'r rhain yn bwysicach nag erioed – sy'n allweddol i helpu'r DU trwy ei hadferiad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a thu hwnt i ddyfodol ariannol iachach a mwy gwydn.

Ers cyhoeddi Strategaeth y DU, rydym wedi gweithio'n agos gyda 145 o bartneriaid allweddol o bob rhan o gymuned lles ariannol amrywiol y DU i gyd-greu map ffordd i gyflawni'r nodau cenedlaethol. Wedi'i drefnu yn 11 grŵp â thema, fe wnaeth aelodau'r tîm - pob un yn arweinydd dylanwadol yn eu maes - weithio gyda'i gilydd i ddarparu cyfres o argymhellion ar gyfer mentrau y gallai ystod o sefydliadau allweddol eu datblygu, gan gynnwys MaPS. Mae'r rhain, ynghyd â syniadau a mewnbynnau o fyrddau crwn yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru o fwy na 250 o gyfranogwyr, a chan randdeiliaid ehangach ledled y DU, wedi llywio a llunio cynlluniau cyflenwi cenedlaethol ar gyfer pob un o'r pedair gwlad, y byddwn yn eu cyhoeddi yn y misoedd i ddod.

Yn 2021/22, fe wnawn ni:

- **lansio cynlluniau cyflenwi cenedlaethol ar gyfer Strategaeth y DU** - gan weithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, dechrau cydlynu fforymau newydd a phresennol i ysgogi'r cyflenwi tuag at y nodau cenedlaethol;
- **dechrau adeiladu hyb ac adnoddau digidol newydd ar gyfer partneriaid** - plattform partner hunan-wasanaethu newydd i rannu mewnwelediadau ac adnoddau yn y blynyddoedd i ddod; ac
- **arwain a chefnogi mentrau allweddol i ysgogi'r nodau cenedlaethol** - trwy ein gwasanaethau i gwsmeriaid, tystiolaeth a mewnwelediadau, a thrwy gefnogi polisi ac arloesedd

Mae Mae gan 27.7 miliwn o bobl yn y DU nodweddion bregusrwydd ariannol⁶

6 FCA, arolwg Bywydau Ariannol 2020: effaith coronafeirws, 11.02.21: <https://beta.ukdataservice.ac.uk/datacatalogue/studies> Wedi'i gyfuno ag SYG, amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU (canol - 2018).

Lansio cynlluniau cyflenwi cenedlaethol ar gyfer Strategaeth y DU

Bydd cydgyssylltu a chydweithio effeithiol rhwng ystod eang o sectorau a sefydliadau yn hanfodol i ysgogi cynnydd tuag at y nodau cenedlaethol. Fel y cydlynnydd, byddwn yn sefydlu strwythur cyflenwi partner newydd - gan ddechrau ei weithredu yn 21/22 ac yn tyfu dros y blynyddoedd dilynol - gan gynnwys datblygu fforymau rhanddeiliaid presennol a chreu rhai newydd i lenwi bylchau.

Bydd hyn yn cynnwys:

- **Fforymau Cyflenwi Cenedlaethol** - un ym mhob gwlad, sy'n gyfrifol am arwain a chydlynu gweithgareddau yn y cynlluniau cyflenwi cenedlaethol. Gan weithio ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig, byddwn yn datblygu ac yn cyd-gadeirio'r fforymau cenedlaethol presennol yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.
- **Grwpiau Diddordeb Arbennig a Thasg a Gorffen** - grwpiau rhanddeiliaid sy a rwymir gan amser neu allbwn sy'n canolbwyntio ar gyflenwi gweithgareddau ac amcanion allweddol o fewn y cynlluniau cyflenwi (e.e. datblygu Siarter Cynilion ar gyfer y diwydiant gwasanaethau ariannol). Bydd y grwpiau hynyn adrodd ar gynnydd i'r Fforymau Cyflenwi Cenedlaethol.

Byddwn hefyd yn cydgyssylltu â rhanddeiliaid allweddol ar draws pob rhanbarth yn Lloegr i ddechrau cyd-ddatblygu cynlluniau gweithredu rhanbarthol, i gefnogi Cynllun Cyflenwi Lloegr.

Dechrau adeiladu hyb ac adnoddau digidol newydd ar gyfer partneriaid

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth y bydd pawb yn gwneud y mwyaf o'u harian a'u pensiynau, bydd angen miloedd lawer o sefydliadau - mawr a bach - i chwarae eu rhan. Mae angen iddo fod mor hawdd â phosibl i gymryd rhan, i gyrchu adnoddau ac offer o ansawdd uchel y profwyd eu bod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac i ddod yn rhan o sgwrs genedlaethol am wella lles ariannol.

Er mwyn galluogi hyn, byddwn yn adeiladu plattform digidol newydd ar gyfer lles ariannol i bartneriaid ledled y DU ei ddefnyddio. Gan ddechrau gweithio tua diwedd 2021/22, bydd yn datblygu yn y blynyddoedd i ddod i ddarparu ystod o gynnwys, megis data a mewnwediadau, adnoddau ac offer, tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, a rhywle i gydweithredu a rhannu syniadau fel cymuned sy'n tyfu.

Arwain a chefnogi mentrau allweddol i y'r nodau cenedlaethol

Yn ogystal â chydlynu eraill i gefnogi uchelgeisiau Strategaeth y DU, byddwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at bob un o'r nodau cenedlaethol. Gan fod y tirluniau polisi a chyflawni ar draws pob nod yn dra gwahanol, felly hefyd y rolau y byddwn yn eu chwarae - o ran maint a chwmpas - gan ategu gwaith gwerthfawr a wneir gan sefydliadau allweddol eraill.

O fewn y cynlluniau cyflenwi cenedlaethol sydd ar ddod, byddwn yn nodi'r ystod o fentrau y byddwn ni, ac eraill, yn eu cyflawni dros y blynyddoedd i ddod. Crynhoir cyflawniadau allweddol MaPS ar gyfer 2021/22 yn yr adran ganlynol.

Cefnogi Sylfeini Ariannol

- Cwblhau braenaru addysg ariannol barhaus ar gyfer hyfforddi athrawon yng Nghymru, pobl ifanc 16-17 oed yn Lloegr, a rhianta yn yr Alban a Gogledd Iwerddon; a saith peilot arloesi parhaus.
- Parhau i ariannu'r Marc Ansawdd Addysg Ariannol a chefnogi dosbarthu gwerslyfrau addysg ariannol Mae'ch Arian o Bwys yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Gwerthuso'r peilot Siarad, Dysgu, Gwneud (TLD) sy'n cael ei redeg gan NatWest - ymyrraeth ar sail tystiolaeth i rieni, a ddatblygwyd gan MaPS. Byddwn hefyd yn dechrau addasu TLD i fersiynau eraill, gan gynnwys ar gyfer plant hyn a phobl ifanc.

Cefnogi'r nodau cenedlaethol trwy arloesi a phrosiectau profi a dysgu gyda phartneriaid

- Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol a chwmnïau gwasanaethau ariannol i gwblhau pedwar peilot arloesi parhaus; profi syniadau newydd i ysgogi'r nodau cenedlaethol.
- Parhau â'n partneriaeth â Nest Insight, BlackRock a JP Morgan i brofi cynlluniau arloesol cynilion wedi'u didynnu o'r gyflogres.
- Cwblhau ein partneriaeth arloesi gyda Nesta i ddod o hyd i atebion i gefnogi pobl y mae'r pandemig yn effeithio arnynt a rhoi cynllun graddio i fyny ar waith.

Byddwn hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nodau cenedlaethol trwy ddarparu ein gwasanaethau i gwsmeriaid:

- ar gyfer sut y byddwn yn cefnogi Cyngor Gwell ar Ddyled, gweler [Blaenoriaeth 1](#);
- ar gyfer Cenedl Cynilwyr ac mae Credyd yn Cyfrif, gweler [Blaenoriaeth 2](#); ac
- ar gyfer Ffocws y Dyfodol, gweler [Blaenoriaeth 3](#).

5 Adeiladu ar sylfeini cryf

Mae parhau i gyflenwi gwasanaethau allweddol a gweithredu'n effeithiol trwy'r pandemig wedi dangos pwysigrwydd cael sylfeini sefydliadol cryf. Pwysigrwydd cael cydweithwyr a phartneriaid cyflenwi gofalgar, arbenigol, sydd wedi ymrwmo i wella canlyniadau i ddefnyddwyr. Pwysigrwydd llywodraethu, proses a thechnoleg gref sy'n galluogi ystwythder a hyblygrwydd, gan sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn parhau i fod ar gael i'r rhai sydd eu hangen. A phwysigrwydd perthnasoedd dibynadwy, cydweithredol ag eraill sy'n rhannu ein gweledigaeth y bydd pawb yn gwneud y mwyaf o'u harian a'u pensiynau.

Yn ystod ein dwy flynedd gyntaf, rydym wedi dod â thri sefydliad ynghyd fel un ac wedi adeiladu sylfeini cryf i'n sefydlu ar gyfer llwyddiant. Bydd ein cam nesaf yn ein gweld yn trosglwyddo o sefydlu'r sefydliad i'w wella - gan sicrhau bod gennym y galluoedd sydd eu hangen arnom nawr ac yn y dyfodol, gan ymateb i gyd-destun sy'n newid yn barhaus.

Ers 2019, rydym wedi creu ein gweledigaeth ranedig, gwerthoedd, a brandiau corfforaethol a defnyddwyr (MaPS ac MoneyHelper) newydd. Fe wnaethom gryfhau ein timau, gan ychwanegu sgiliau a gallu allweddol i ategu arbenigedd a phrofiad dwfn ein cydweithwyr presennol. Fe wnaethom drawsnewid ein hystâd dechnoleg, gan alluogi cydweithwyr i weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol ac effeithlon, ynghyd â galluogi profiadau gwell i'n cwsmeriaid.

Fe wnaeth MaPS helpu i gyflenwi
cyngor i fwy nag 1 miliwn o
gwsmeriaid⁷

⁷ Cyfrifir hyn trwy gyfuno'r sesiynau cwsmeriaid yr ydym yn eu hariannu a'u cyflwyno'n uniongyrchol ar draws ein holl swyddogaethau statudol. Nid yw'n cynnwys teithiau digidol.

Yn unol â Deddf Canllawiau Ariannol a Hawliadau 2018, fe wnaethom ddatblygu Safonau MaPS i ysgogi safonau ansawdd arfer gorau ar gyfer ein gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol i ddefnyddwyr. Gan gyflawni yn ôl ein cyfrifoldebau fel Corff Hyd Fraich, yn cynnwys rheoli arian cyhoeddus, fe wnaethom ymgorffori rheolaethau llywodraethu, cynllunio ac ariannol cryfach.

Datblygwyd a gweithredwyd llawer o hyn yng nghydestun y pandemig. Yn yr un modd â sefydliadau eraill, mae'r profiad hwn wedi llunio a phrofi ein gallu i fod yn ystwyth ac yn ymatebol i amgylchedd heriol a chythyrlus. Fe wnaethom addasu arferion gwaith yn llwyddiannus i alluogi gweithio gartref, wrth ystwytho ein model adnoddau a'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn i ddarparu mwy o gymorth i wasanaethau rheng flaen a mentrau ymateb COVID-19.

Nawr, byddwn yn symud ein ffocws i sut rydym yn adeiladu ar y sylfeini cryf hyn. A sut rydym yn parhau i ddatblygu ac addasu ein swyddogaethau trefnu a galluogi i sicrhau bod gennym y galluoedd cywir yn y lle iawn i gyflawni ein blaenoriaethau.

Yn 2021/22, fe wnawn ni:

- barhau i fuddsoddi mewn denu a chadw talent amrywiol - cydweithwyr sy'n rhannu ein gwerthoedd o ofalu, cysylltu a thrawsnewid. Byddwn yn dechrau **ymgorffori ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd yn y gweithlu**, gan sefydlu MaPS fel man lle mae pobl yn ffynnu ac yn cyflawni eu perfformiad gorau. Byddwn hefyd yn lansio Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol newydd i gefnogi lles cydweithwyr;

- ymateb i ganlyniad **Adolygiad yr Adran Gwaith a Phensiynau** o MaPS a blaenoriaethu gweithredu ei argymhellion;
- **cyhoeddi ein Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd** - wedi'i gohirio i adlewyrchu argymhellion yr Adolygiad Adrannol ac i alinio â llinellau amser yr **Adolygiad Gwariant**;
- **cyhoeddi a dechrau cyflwyno'r Safonau MaPS** fel y'u cymeradwywyd gan yr FCA. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig, fel rhan o weithredu;
- dechrau cynllunio a dylunio **Hyb Data a Mewnwelediadau** newydd. Bydd hyn yn gosod y seiliau i MaPS ddod yn brif lais ar ddata lles ariannol yn y DU, ac yn y tymor hwy bydd yn cefnogi dylunio a thargedu gwasanaethau sy'n ysgogi canlyniadau gwell i gwsmeriaid a'r sector ehangach;
- diweddarau ein **fframwaith atebolrwydd ar gyfer Cydymffurfedd Diogelu Data** yn unol â chanllawiau newydd o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO); a
- **chryfhau llywodraethu mewnol, rheoli risg a rheolaethau gweithredol, gan gynnwys trwy weithredu fframweithiau cydymffurfedd a sicrwydd newydd**

Cynllun Iaith Gymraeg

Mae MaPS wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi statws cyfartal i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi Cynllun Cymraeg, gan nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg.

O ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bydd safonau statudol yn disodli Cynlluniau Cymraeg a bydd angen i rai sefydliadau gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad ar y Gymraeg. Fodd bynnag, fel sefydliad noddedig o Gorff y Goron, byddwn yn parhau i weithredu Cynllun Iaith Gymraeg.

Bydd MaPS yn lansio ei Gynllun Iaith Gymraeg yn 2021, ac mae hyn yn disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled â'l fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, i'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a sut y byddwn yn darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru.

Mesur Iwyddiant

Ein dull gwerthuso

Er mwyn i bawb wneud y mwyaf o'u harian a'u pensiynau, rhaid inni gyflenwi gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn am yr hyn sy'n gweithio, yn ogystal â'r hyn nad yw'n gweithio. Rydym yn gwerthuso ein gwasanaethau'n barhaus gan ddefnyddio ystod o ddulliau i ddeall sut a ble rydym yn helpu ein cwsmeriaid yn fwyaf effeithiol.

Ar draws pob maes o'n busnes, mae prosesau a thargedau unigol ar gyfer sicrhau ansawdd ar waith, pob un wedi'i deilwra'n arbennig i sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn y cyngor a'r canllawiau gorau posibl.

Rydym yn mabwysiadu arfer gorau yn y gwerthusiadau rydym yn eu comisiynu, gandynnu ar adnoddau megis Llyfr Magenta Trysorlys EM a Chanllawiau Arfer Da Cymdeithas Gwerthuso'r DU.

Eleni rydym yn bwriadu gweithredu ffordd newydd a gwell o werthuso ein darpariaeth ar draws yr holl bwyntiau cyffwrdd cwsmeriaid. Byddwn yn gwneud hyn trwy ganolbwyntio ar fetrigau 'ansawdd gwasanaeth' (boddhad, tebygolrwydd i argymhell a nodi baneri coch), yn ogystal â 'chanlyniadau' sy'n helpu i ddeall effaith tymor hwy. Rydym hefyd yn ymgymryd â rhaglenni arloesi gwasanaeth a fydd yn profi ac yn datblygu newidiadau i'n gwasanaethau cwsmeriaid er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau canlyniadau gwell mewn amser real.

Rydym yn gwerthuso Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol gyda'r un trylwyredd â'n gwasanaethau cwsmeriaid. Mae gan y Strategaeth nodau cenedlaethol uchelgeisiol, degawd o hyd, a byddwn yn mesur ei heffaith ar y boblogaeth. Yn 2021/22 rydym yn canolbwyntio ar ddeall sut mae'r Strategaeth yn dod yn ei blaen: beth allai weithio, beth nad yw'n gweithio yn ôl y disgwyl a lle gallwn wella.



Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r Fframwaith Perfformiad

	Cyngor ar Ddyled Helpu pobl mewn argyfwng ariannol	Pensiynau Helpu pobl gyda'u pensiynau a'u dyfodol ariannol	Arian Helpu pobl mewn angen i reoli eu harian heddiw
Cyrraedd: helpu i sicrhau ein bod yn parhau i gynyddu nifer y bobl sy'n cael yr help sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt.	Cyflenwi 536,000 o sesiynau cyngor ar ddyled yn Lloegr	Cyflenwi 420,000 o sesiynau canllawiau pensiwn wedi'u personoli <ul style="list-style-type: none"> ■ 215,000 o Ryddidau Pensiynau ■ 205,000 o Ganllawiau Pensiynau 	Cyflenwi 235,000 o sesiynau canllawiau arian
Ymateb i COVID-19	Yn ystod y pandemig, darparu gallu cyngor ar ddyled ychwanegol i gefnogi hyd at 1 miliwn o bobl	Amherthnasol	Yn ystod y pandemig, darparu ganllawiau arian gwell ar gyfer hyd at 2 filiwn ledled y DU
Bodddhad: helpu i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn fodlon.	Mae 85% o gwsmeriaid yn fodlon a byddai 85% o gwsmeriaid yn argymell MaPS	Mae 85% o gwsmeriaid yn fodlon a byddai 85% o gwsmeriaid yn argymell MaPS	Mae 85% o gwsmeriaid yn fodlon a byddai 85% o gwsmeriaid yn argymell MaPS
Ansawdd*: helpu i sicrhau bod ein canllawiau a'n cyngor yn cael eu cyflenwi hyd at ansawdd cyson uchel.	Mae Sicrwydd Ansawdd (QA) yn sgorio cyfartaledd o 75% ar draws yr holl gyngor a aseswyd	Mae QA yn sgorio 85% ar gyfartaledd ar draws yr holl ganllawiau a aseswyd	Mae QA yn sgorio 80% ar gyfartaledd ar draws yr holl ganllawiau a aseswyd

*Ar draws pob maes cyflenwi, mae prosesau a thargedau gwahanol a phenodol ar gyfer sicrhau ansawdd ar waith, sy'n golygu na ellir cymharu'r mesurau hyn yn uniongyrchol. Yn ystod 21/22 rydym yn gweithio i gysoni mesurau sicrhau ansawdd er mwyn darparu cysondeb.

Ar draws yr holl wasanaethau

Digidol: cefnogi ein meysydd gwasanaeth	Cyflenwi 21 miliwn o sesiynau digidol ymgysylltiedig
--	---

Yn datblygu yn 2020/21

Yn 2021/22 rydym yn adeiladu mesurau newydd ar gyfer sicrhau ansawdd, canlyniadau ac effeithlonrwydd. Bydd y metrigau isod yn cael eu monitro bob chwarter, gyda tharged o wireddu llinellau sylfaen newydd erbyn diwedd Ch2 2021/22.


Canlyniadau: sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar wella lles ariannol ein cwsmeriaid.	Erbyn Medi 2021 byddwn yn cyflawni llinell sylfaen ar gyfer ein canlyniadau i gwsmeriaid sy'n canolbwyntio ar ddeall, datrys a lles
Strategaeth y DU: gweithio gyda phartneriaid i wella lles ariannol.	Gwerthuso Strategaeth a cherrig milltir mesur y DU - ffactorau llwyddiant allweddol i'w diffinio ymhellach yn 2021/22
Effeithlonrwydd: sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian.	<ul style="list-style-type: none"> ■ Cymhareb costau corfforaethol i gyfanswm costau staff ■ Cymhareb cyfanswm y costau corfforaethol i gyfanswm y costau ■ Canran y gyllideb yn ôl gwariant <ul style="list-style-type: none"> ■ Cost fesul cwsmer a gefnogir (yn ôl sianel / llwybr gwasanaeth) ■ Canran caffaeliadau trwy fframweithiau canolog ■ Canran y caffaeliadau a gwblhawyd o fewn yr amserlenni targed

Ein cyllideb ar gyfer 2021/22

Ein cyllideb ar gyfer 2021/22 yw £157.4m: £147.6m gwariant ar adnoddau, gwariant cyfalaf o £0.8m, £9.0m ar gyfer y Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau.


Rydym yn cael ein hariannu gan dalwyr ardoll a thrwy'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn casglu'r Ardoll Gyffredinol Pensiynau ar gynlluniau pensiwn. Cesglir yr Ardoll Gwasanaethau Ariannol gan yr FCA a'i rhannu'n dair elfen: canllawiau ar arian, cyngor ar ddyledion a chanllawiau pensiynau (ar gyfer canllawiau rhyddidau pensiwn). Gellir priodoli mwyafrif ein costau yn uniongyrchol i ardollau penodol, er enghraifft ein gwasanaethau rheng flaen megis y llinell gymorth canllawiau pensiynau, neu gyngor ar ddyled neu ganllawiau ar arian. Mae costau eraill, yn bennaf ar gyfer y swyddogaethau galluogi sy'n cefnogi ein cyflenwi, yn cael eu dyrannu rhwng y ddwy ardoll.

Cyllideb wedi'i rhannu yn ôl Ardoll (£157.4m)



Noder: Efallai na fydd niferoedd/canrannau yn cyfateb oherwydd talgrynnu

Cyllideb wedi'i rhannu yn ôl blaenoriaeth strategol (£157.4m) 2021/22



Noder: Efallai na fydd niferoedd/canrannau yn cyfateb oherwydd talgrynnu

Sut i gymryd rhan

Os ydym yn mynd i adeiladu'n ôl yn well wedi COVID-19 - a sicrhau bod pawb yn y DU yn wir gwneud y mwyaf o'u harian a'u pensiynau - mae angen ffocws tymor hir cydgyssylltiedig ar wella lles ariannol.

Os ydych chi am ddysgu rhagor am MaPS a'n gweledigaeth, neu am wybod sut y gallwch chi weithio gyda ni:

- Ewch i maps.org.uk/partnerships;
- Cysylltwch â strategy@maps.org.uk;
- Neu ymunwch â'r sgwrs yn [#UKFinancialWellbeing](https://twitter.com/UKFinancialWellbeing).

Os ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, angen help neu gymorth ynghylch arian gallwch:

- cael canllawiau gan moneyhelper.org.uk;
- cyrchu cyngor ar ddyledion trwy ein teclyn lleoli moneyadvice.service.org.uk/en/tools/debt-advice-locator;
- neu ein ffonio ni yn uniongyrchol ar 0800 138 7777.



Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau

